# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 10.03.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd W. Tudor Owen.

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Llywarch Bowen Jones, Gethin Glyn Williams

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**

Dim eitem i'w hystyried

4. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013, fel rhai cywir.

5. **COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013, 28 Hydref 2013 a 29 Ionawr 2014. Diolchwyd i'r swyddogion am eu cefnogaeth yn yr Is-bwyllgorau.

**PENDERFYNWYD DERBYN Y WYBODAETH.**

6. **DIWEDDARU POLISI COLLFARNAU PERTHNASOL MEWN PERTHYNAS Â TRWYDDEDU GYRWYR TACSI**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio. Eglurwyd bod yr Awdurdod eisoes wedi mabwysiadu canllawiau ar gollfarnau perthnasol fel rhan o'r Polisi Tacsis - y canllawiau yn cael eu defnyddio gan swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau gyrwyr gan

unigolion gyda chollfarnau perthnasol ar eu hadroddiad . Mae'r Cyngor bellach yn adolygu eu canllawiau mewn perthynas â chollfarnau perthnasol ac wedi penderfynu drwy'r Panel Technegol Trwyddedu gynnig diweddariad priodol i sefyllfaoedd cyfredol yn y maes trwyddedu tacsis. Nodwyd y byddai mabwysiadu'r canllawiau diwygiedig hyn yn sicrhau cysondeb gyda Siroedd eraill.

Prif nôd y polisi yw diogelu'r cyhoedd a cheisio rhoi arweiniad i unrhyw un a chanddo ddiddordeb mewn trwyddedau hurio cyhoeddus a phreifat.
Mewn achos lle bydd swyddogion trwyddedu a phanel Is Bwyllgor Trwyddedu yn defnyddio / rhoi sylw i'r canllawiau hyn i wneud penderfyniad, amlinellwyd y byddai pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol. Os bydd amgylchiadau'n gofyn am hynny, caiff y swyddog / panel wyro oddi wrth y canllawiau hynny.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad i'r canllawiau perthnasol. Bydd y canllawiau newydd yn cael eu mabwysiadu gan y Pwyllgor Trwyddedu pan fydd y Polisi Trwyddedu Tacsis yn cael ei adolygu yn ei gyfanrwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amserlen adolygu'r Polisi Trwyddedu Tacsis, ymhelaethodd y Rheolwr Trwyddedu bod yr Adran Trwyddedu yn adolygu'r polisi eleni. Adroddwyd nad oedd argymhellion wedi eu rhyddhau gan Comisiwn y Gyfraith. Nodwyd bod y ddeddfwriaeth bresennol yn gymhleth a dyddiedig, felly angen mabwysiadau polisi sydd yn berthnasol i amgylchiadau presennol.

Cynghorau eraill yn adolygu eu polisïau - rhai yn gwneud adolygiadau bychain tra bod eraill yn aros am argymhellion gan Comisiwn y Gyfraith. Rhaid cydweithio a sicrhau pwysigrwydd amgylchiadau lleol wrth lunio polisi.

Prif sylwadau o'r drafodaeth:
Angen

- diweddaru a moderneiddio'r canllawiau
- cynnal profion cyson ar gerbydau dros 10oed i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cludo teithwyr.
- rhoi pwyntiau cosb i yrwyr tacsi sydd ddim e.e., yn arddangos bathodyn neu ddiffoddwr tân.
- cosbi gyrwyr sydd yn osgoi materion iechyd a diogelwch drwy beidio cynnal a chadw eu cerbydau yn rheolaidd.
- bod yn fwy trylwyr a chadarn gyda phrofion ceir. Adolygiadau wedi cael eu cynnal gyda modurdai; gwaith ail lunio canllawiau newydd, cynhwysfawr ar y gweill i sicrhau cysondeb.
- sicrhau cysondeb yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.
- mwy nag un Swyddog Trwyddedu Gorfodaeth yng Ngwynedd - angen i'r Cyngor ymddwyn yn adweithiol yn hytrach nag ataliol.
- casglu sylwadau gyrwyr tacsi. Wrth adolygu'r polisi tacsi yn ei gyfanrwydd bydd cyfle i ymgynghori gyda'r diwydiant. Cynigiwyd y dylid gwahodd gyrwyr i'r Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau. Cytunwyd.
- sicrhau bod y polisi yn cynnwys canllawiau manwl ac nad oes anghysondebau yn ymddangos ynddo.

Penderfynwyd derbyn y diweddariad i'r canllawiau perthnasol.
Gofynnwyd i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith wirio os bydd modd defnyddio'r canllawiau diwygiedig cyn cwblhau'r adolygiad Polisi Trwyddedu.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00a.m. a daeth i ben am 11.00am